**Cyfarfod y Gweinidog Addysg â'r Trydydd Sector**
**Dydd Iau 3 Rhagfyr 2020**
**12:00 – 13:15**

## Y rhai a oedd yn bresennol

**Llywodraeth Cymru:**
Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg **(KW)**
Donna Lemin
Kelly Murphy
Dewi Knight
Matthew Mithan (yn gwneud nodiadau)

**Y Trydydd Sector**
Ben Lloyd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru **(BL)**
Kathryn Robson, Addysg Oedolion Cymru
Catrin James, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol / Urdd Gobaith Cymru **(CJ)**
Susie Ventris Field, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru **(SVF)**
Rebecca Falvey, Busnes yn y Gymuned **(RF)**
Kevin Rahman-Daultrey, Maint Cymru
Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru
Felicitie Walls, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru **(FW)**
Sian Rees, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
Kay Smith, y Sefydliad Dysgu a Gwaith
Sean O'Neill, Plant yng Nghymru **(SO)**
David Smith, Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru **(DS)**
Paul Glaze, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
Vikki Cornish, Cynulliad Merched Cymru **(VC)**
Elin Maher, Mentrau Iaith Cymru **(EM)**
Ginger Wiegand, y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig **(GW)**

**Ymddiheuriadau**
Marianne Mannello, Chwarae Cymru
Gethin Rhys, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
Bryn Hall, Clinks
Elspeth Jones, Maint Cymru
Caroline Rawson, Snap Cymru

## Eitem 1 – Cofnodion a Chamau Gweithredu y cyfarfod diwethaf

KW – Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau a phawb yn cytuno ar y cofnodion. Roedd hefyd yn ddiolchgar am y ddau bapur a ddarparodd y Trydydd Sector ar gyfer y cyfarfod hwn.

## Eitem 2 – Cysylltiadau rhwng gwirfoddoli ieuenctid a system yr ysgol

FW – Ar ôl ymgynghori â'r rhwydwaith gwirfoddoli ieuenctid, dywedodd fod yr adborth cyffredinol wedi bod yn gadarnhaol o ran y ffordd yr oedd gwaith gwirfoddoli yn ategu Bagloriaeth Cymru a thrwy gyfarfodydd cyngor ysgol. Fodd bynnag, cafodd y pandemig effaith andwyol ar bob rhan o'r sector gwirfoddol.

KW – Yn cydnabod pwysigrwydd gwirfoddoli ac yn ddiolchgar am yr adborth cadarnhaol a gafwyd ar lwyddiant Bagloriaeth Cymru o ran cynorthwyo â gwirfoddoli. Roedd yn falch o weld faint o bobl ifanc ledled Cymru a ddangosodd barodrwydd i chwarae eu rhan mewn cymunedau yn ystod y pandemig, gan ddod yn rhan o'r cydnerthedd cymunedol i helpu'r grwpiau mwy agored i niwed yn y gymdeithas. Roedd y cwricwlwm newydd yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ail-greu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ar gyfer disgyblion, ond byddai cymorth gan y Trydydd Sector gyda hyn yn cael ei groesawu'n fawr.

BL – Cadarnhaodd y byddai'r Trydydd Sector yn fodlon ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ble bynnag y bo modd.

SVF – Gofynnodd am eglurhad ynghylch a fyddai'n bosibl i'r platfform Zoom fod ar gael i ysgolion yng Nghymru, yn hytrach na phlatfform Microsoft Teams.

KW – Cytunodd i ofyn i swyddogion edrych pa opsiynau sydd ar gael ac adrodd yn ôl i'r Trydydd Sector.

- **Gweithredu** – Chris Owen i edrych ar argaeledd Zoom, yn hytrach na Teams, mewn ysgolion. Llywodraeth Cymru i roi diweddariad i'r Trydydd Sector.

## Eitem 3 – Yr effaith y mae cyfyngiadau'r coronafeirws a chau ysgolion yn ei chael ar gydraddoldeb

GW – Cododd bryderon ynghylch gagendor digidol rhwng gwahanol grwpiau o blant yn y gymdeithas, sy'n effeithio'n fwyaf sylweddol ar y rhai mewn cymunedau o bobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. Roedd y trydydd sector hefyd wedi cael gwybod am anawsterau a wynebwyd gan rieni di-Gymraeg disgyblion cyfrwng Cymraeg nad oeddent yn gallu helpu eu plant â'u gwaith.

RF – Awgrymodd y bu tystiolaeth o ysgolion yn ardal Casnewydd yn ei chael hi'n anodd cael technoleg ddigonol ar gyfer eu disgyblion.

EM – Tynnodd sylw at enghreifftiau cadarnhaol o ysgolion yn addasu cyfarpar TGCh at ddibenion gwahanol. Gofynnodd a oedd unrhyw ddiweddariadau pellach ynghylch argaeledd TGCh ar gyfer ysgolion yn y dyfodol.

KW – Nododd y gwaith parhaus y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cyfarpar TGCh digonol i ysgolion. Roedd cyfarpar

wedi'i archebu er mwyn gwella'r cyfarpar sydd eisoes ar gael i ysgolion, ond bu oedi o ran cyflenwyr oherwydd poblogrwydd y cyfarpar yn fyd-eang. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu grŵp gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i nodi materion o ran defnyddio TGCh i barhau i ddysgu, gan gynnwys drwy ddysgu o bell. Roedd y Llywodraeth yn parhau i roi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i ysgolion er mwyn sicrhau y gallai'r plant fynd i'r ysgolion.

SO - Yn credu bod y pandemig wedi amlygu pa mor bwysig yw hi i blant allu mynd i'r ysgol er mwyn cynnig seibiant o unrhyw faterion gartref a darparu prydau ysgol am ddim. Croesawodd ddull Llywodraeth Cymru o gynnig Prydau Ysgol am Ddim, ond roedd am i'r meini prawf cymhwysedd gael eu hehangu ymhellach.

DS - Holodd a oedd Llywodraeth Cymru wedi cynllunio ar gyfer unrhyw achosion posibl o darfu ar y gadwyn cyflenwi bwyd pan fydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

KW – Cadarnhaodd fod trafodaethau eisoes wedi'u cynnal ag awdurdodau lleol ledled Cymru, fel rhan o waith cydnerthedd Llywodraeth Cymru, i geisio eu hannog i brynu mwy o gynnyrch lleol yn hytrach na dibynnu ar fwyd sydd wedi'i fewnforio. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi sicrhau bod mwy na £50m ar gael i awdurdodau lleol i sicrhau bod y rhaglen Prydau Ysgol am Ddim yn parhau yng Nghymru. Byddai'r ymrwymiad presennol yn parhau tan wyliau'r Pasg, ac roedd y trafodaethau'n parhau ynghylch y cyllid yn y dyfodol. Roedd mwy o blant nag erioed yn elwa ar y cynllun. Byddai rhagor o wybodaeth, a ddylai gael ei darparu yn nhymor y gwanwyn, yn cael ei hystyried i sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael cyn gwneud y penderfyniad nesaf. Byddai'r trothwy ar gyfer y meini prawf cymhwysedd yn cael ei adolygu'n barhaus.

CJ – Tynnodd sylw at yr ymrwymiad rhagorol a ddangosodd gweithwyr ieuenctid yn ystod y pandemig.

EM – Esboniodd yr anawsterau a wynebir gan rieni di-Gymraeg plant sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid ydynt yn gallu helpu eu plant gymaint ag yr hoffent ei wneud oherwydd rhwystrau ieithyddol o ran y dysgu.

KW – Roedd yn canmol yr ymrwymiad a ddangosodd gweithwyr ieuenctid ledled Cymru yn ystod y pandemig a phwysleisiodd bwysigrwydd aruthrol eu perthynas â'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda nhw. Roedd ysgolion bellach yn fwy ymwybodol nag erioed o bwysigrwydd gwaith ieuenctid. Y cyn Gomisiynydd Plant, Keith Towler sydd ar hyn o bryd yn cadeirio'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a chyn bo hir byddai'n adrodd yn ôl i'r Gweinidog ar ddyfodol gwaith ieuenctid yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid wedi'i dargedu'n benodol ar gyfer cynorthwyo'r disgyblion hynny mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nad oeddent wedi cael y cyfle i siarad Cymraeg gartref yn ystod y pandemig. Roedd adnoddau ychwanegol hefyd ar gael ar lwyfan dysgu Hwb i gefnogi rhieni nad ydynt

yn siarad Cymraeg ond sydd â phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Tynnodd sylw at bwysigrwydd hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg gymaint â phosibl.

VC – Mynegodd ei phryder y gallai Prifysgolion ffafrio myfyrwyr o'r tu allan i Gymru oherwydd cyhoeddiad diweddar y Gweinidog ynghylch peidio â chael arholiadau diwedd blwyddyn ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio pynciau a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru.

KW – Esboniodd y byddai gan fyfyrwyr o Gymru yr un cymwysterau â myfyrwyr o’r tu allan i Gymru o hyd. Ymgynghorwyd yn llawn â phrifysgolion yng Nghymru a’r tu allan i Gymru cyn gwneud y penderfyniad. Nododd mai eu dewis hwy oedd gwneud y gorau o'r amser addysgu. Roedd yr adborth a gafwyd gan Brifysgolion hefyd yn tynnu sylw at eu hyder yn system Cymru gan y byddai'r cymwysterau'n dal i gael eu dyfarnu gan gorff annibynnol.

Yna daeth y cyfarfod i ben gyda'r Gweinidog yn diolch i bawb am eu holl waith caled drwy gydol y pandemig.